# ECAD6006 2019/20

# SESIWN 1

Jeni Price

# DEWCH O HYD I RYWUN …

Dim Saesneg!

| | | |
|---|---|---|
| sy wedi darllen llyfr Cymraeg | sy wedi gweithio dros y penwythnos | sy wedi gwylio rhaglen ar S4C |
| sy'n siarad Cymraeg gyda'r teulu | sy wedi mynd i ddosbarth Cymraeg | sy'n siarad iaith arall (dim Saesneg na Chymraeg) |
| sy wedi bwyta coesau broga | sy wedi neud naid bynji | sy wedi bod yn gwrando ar Radio Cymru |

Wyt ti wedi …?

Ydw, dw i wedi …
Nac ydw, dw i ddim wedi …

Adolygu Syml….

Ewch o gwmpas y dosbarth a holwch y cwestiynau yma i 8 person…

- Beth ydy dy enw di?
- Ble wyt ti'n byw?
- O ble wyt ti'n dod?
- Pa gyfnod hoffet ti ddysgu?
- Beth wyt ti'n hoffi wneud?
- Ble est ti ar dy wyliau diwethaf?

**Beth sy'n digwydd ar ôl y ffurfiau 'bod'?**
Mae angen 'yn' neu ''n' ar ôl y ferf, a rhaid defnyddio **treiglad meddal** gyda rhai geiriau:

Sylwch :
yn / 'n + ansoddair = **treiglad meddal** e.e. Mae e'n **w**yrdd, ond mae hi'n **l**as.

yn / 'n + enw = **treiglad meddal** e.e. Maen nhw'n **b**obl dda, ond dydyn nhw ddim yn **g**yfeillion.

yn / 'n + berf = **dim treiglad** e.e. Rydw i'n **rh**edeg yn gyflym pan maen nhw'n **g**alw.

*eithriadau* - dydy 'll' na 'rh' yn treiglo ar ôl 'yn' / ''n' e.e. yn llwyd, yn rhad.

| Cysefin \| Radical | Meddal \| Soft |
|---|---|
| P | B |
| T | D |
| C | G |
| B | F |
| D | Dd |
| G | * |
| Ll | L |
| M | F |
| Rh | R |

# Mae'n amser ymarfer!

Yn eich pecyn, cwblhewch ymarefrion …

Newidiwch y rhain i'r negyddol

Dyma'r ateb, ond beth ydy'r cwestiwn?

Gêm drac



**Newidiwch rhain i'r negyddol :**

1. Rydw i'n rhedeg Marathon Llanelli eleni.
2. Rwyt ti'n gweithio'n rhy galed.
3. Mae e'n hoffi'r rhaglen deledu.
4. Rwyt ti'n colli gormod o waith.
5. Mae hi eisiau ymddiheuro i Mr Owen.
6. Rydyn ni'n gweithio pedair awr bob nos.
7. Rydych chi'n mynd i orffen y cynllun gwaith heno.
8. Rwyt ti'n gyfrifol am y sioe Nadolig eleni.
9. Mae Rhys yn mynd ar daith wythnos nesaf.
10. Maen nhw'n dweud y gwir.

**Dyma'r ateb, ond beth ydy'r cwestiwn? :**

Ydw, dwi'n mwynhau'r gwyliau.

Ydy, mae Miss Bowen yn ymddeol eleni.



**Gêm Drac**

Taflwch y dis a dilynwch y trac, yna gwnewch frawddegau sy'n cynnwys y geiriau yn y grid.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rydw i | Ydyn nhw? | Dydw i ddim | Dydych chi ddim | Ydy e? |
| Ydy hi? | * dewis * | Dydyn ni ddim | Rwyt ti | Ydych chi? |
| Dydyn nhw ddim | Mae e | Rhedwch | * dewis * | Dydy e ddim |
| Wyt ti? | Dwyt ti ddim | Ydyn nhw? | Mae hi | Ydyn ni? |
| Rydyn ni | Dydy hi ddim | * dewis * | Rydych chi | Ydw i? |

Her . . .

Gweithiwch gyda phartner. Ysgrifennwch gymaint o frawddegau â phosib yn defnyddio ffurfiau presennol 'bod'.

Pwy sy'n gallu creu'r nifer fwyaf mewn dwy funud?

https://www.online-stopwatch.com/bomb-countdown/

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| **Beth sy'n bod?** | What is the matter? |
| **Beth yw/ydy e/hwn?** | What is it/this? |
| **Beth yw/ydy'r rhain?** | What are these? |
| **Ble mae ...?** | Where is ...? |
| **Ble mae dy waith cartref di?** | Where is your homework? |
| **Faint o ...?** | How many ...? |
| **Ga i weld dy waith di?** | May I see your work? |
| **Mae'n amser cinio.** | It's lunchtime. |
| **Mae'n amser chwarae.** | It's playtime. |
| **Mae'n amser mynd adref.** | It's home time. |
| **Oes digon o bensiliau?** | Are there enough pencils? |
| **Pa liw yw/ydy ...?** | What colour is ...? |
| **Pwy sy eisiau ...?** | Who wants ...? |
| **Pwy sy'n cael cinio/brechdanau?** | Who is having lunch/sandwiches? |
| **Pwy sy'n cofio?** | Who remembers? |
| **Pwy sy'n gwybod ...?** | Who knows ...? |
| **Pwy sy'n hoffi ...?** | Who likes ....? |
| **Sawl ... sy yna?** | How many ... are there? |
| **Sut gymeriad ydy ...?** | What sort of character is ...? |
| **Sut mae ... yn teimlo?** | How does ... feel? |
| **Sut mae'r tywydd?** | How's the weather? |
| **Tro ... sy nesa.** | It's ... turn next. |
| **Tro pwy sy nesa?** | Who's turn is it next? |
| **Wnei di roi'r llyfr ar y ddesg?** | Will you put the book on the desk? (sing.) |
| **Wnewch chi ...?** | Will you ...? (pl.) |
| **Wyt ti wedi gorffen?** | Have you finished? (sing.) |
| **Wyt ti'n barod?** | Are you ready? (sing.) |
| **Ydych chi wedi gorffen?** | Have you finished? (pl.) |
| **Ydych chi'n barod?** | Are you ready? (pl.) |

# ADOLYGU YMADRODDION DEFNYDDIOL YN Y DOSBARTH …

Mae'n amser chwarae gêm!

Gêm 1:
Cyfatebwch y cardiau Cymraeg a Saesneg.
Dwedwch bob un o'r ymadroddion yn uchel.

Gêm 2:
Rhowch y cardiau Cymraeg i un ochr (to one side).
Cymysgwch y cardiau Saesneg.
Rhowch y cardiau Saesneg mewn pentwr wyneb i lawr.
Cymerwch eich tro i godi carden Saesneg.
Rhaid i chi gyfieithu'r ymadrodd ar y garden.



Dechrau'r Wers …

| Cyfarch | Pwy? |
|---|---|
| Bore da<br>Prynhawn da<br>Croeso | blant<br>flwyddyn 1<br>bawb |

| Pryd? | Pwy? Pryd? | Beth (verb)? | Beth(content)? |
|---|---|---|---|
| Heddiw | rydyn ni'n<br>rydych chi'n | mynd i | ymarfer ysgrifennu<br>ddysgu am y byd<br>adolygu mathemateg<br>wneud model 3D |
| Bore 'ma (yma)<br>Prynhawn 'ma (yma) | byddwn ni'n<br>byddwch chi'n | dysgu am<br>siarad am<br>adolygu<br>ysgrifennu | y Tuduriaid<br>anifeiliaid<br>rifau<br>dyddiadur |
| Yn y wers yma | rydw i | eisiau i chi feddwl am | eich teimladau<br>yr amgylchedd<br>waith ddoe |

| Cysefin \| Radical | Meddal \| Soft |
|---|---|
| P | B |
| T | D |
| C | G |
| B | F |
| D | Dd |
| G | * |
| Ll | L |
| M | F |
| Rh | R |

**Mini Meicro**

Chwaraewch rôl athro neu athrawes a disgyblion.
Casglwch wrthrychau (*objects*) o gwmpas y dosbarth a gosodwch nhw ar y bwrdd. Gofynnwch i'r disgyblion ddisgrifio'r gwrthrychau, a holwch gwestiynau iddyn nhw am y gwrthrychau hefyd.

Gallwch ddewis pethau fel pêl, tedi, llyfr, cwpan, cloc, pensil ayb.
Beth am ofyn cwestiynau fel "Ydy'r bêl yn grwn?", "Ydy'r tedi'n binc?" ayb.

Dechreuwch y wers.
Gofynnwch 5 cwestiwn am y gwrthrychau (objects)